

# Monmouthshire Select Committee Minutes

## Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at Remote Microsoft Teams Meeting on Dydd Llun, 27ain Gorffennaf, 2020 at 10.30 am

### Councillors Present

County Councillor T. Thomas (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, L.Dymock,  
S. Howarth and J.Treharne

### Officers in Attendance

Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a  
Llywodraethiant  
Sharran Lloyd, LSB Development Manager  
Hazel Clatworthy, Swyddog Polisi Cynaliadwyedd  
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu

**APOLOGIES:** County Councillors P.Pavia and R.Roden

#### 1. I ethol cadeirydd

Etholwyd y Cynghorydd Tudor Thomas yn gadeirydd ar y cyfarfod.

#### 2. Datganiadau o Fuddiant

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

#### 3. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol ac nid oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol.

#### 4. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020.

Cymeradwywyd cofnodion y Pwyllgor Dethol a gynhaliwyd ar 11eg Mawrth 2020 fel cofnod cywir a chywrair o'r cyfarfod.

#### 5. Craffu Cyn-penderfyniad ar Ddrafft Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd Pennaeth Perfformiad a Gwelliant wedi cyflwyno ail Adrodd Blynyddol drafft y BGC a oedd yn cynnig trosolwg o berfformiad y bwrdd yn ystod Ebrill 2019-Mawrth 2020 ar yr amcanion yn ei gynllun lesiant, yn unol gydag anghenon y ddeddfwriaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Esboniodd fod yr adrodd yn ymdrin â'r camau y mae BGC wedi eu dewis i gyflawni ei amcanion a'r rhesymau pam y dewiswyd y rhai hynny a sut y mae'r bwrdd wedi gweithredu'r 5 ffordd o weithio a amlinellir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei waith yn ystod y flwyddyn. Roedd y swyddog wedi esbonio fod yr adroddiad hefyd yn cynnig trosolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ar y 19 cam yn erbyn pedwar amcan llesiant sydd wedi eu dewis gan y bwrdd ac roedd yn cynnwys astudiaeth achos manwl o'r gwaith sydd wedi ei wneud gan Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y dechrau gorau posib mewn bywyd. Roedd hefyd yn crynhoi'r gwaith craffu sydd wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn a throsolwg o'r gwaith rhanbarthol sydd wedi ei wneud a'r dystiolaeth a'r wybodaeth

sydd wedi eu defnyddio er mwyn mesur cynnydd fel y dangosyddion cenedlaethol sydd wedi eu hamlinellu yn y ddeddf.

Dywedodd y swyddog fod gwasanaethau cyhoeddus wedi bod ar flaen y gad wrth ymateb i'r pandemig covid-19 ac mae yna gyfeiriad o'r dystiolaeth sydd yn datblygu yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, bydd mwy o dystiolaeth fanwl ar yr effaith ar lesiant yn cael ei ddarparu mewn adroddiadau pellach. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr holl bartneriaid wedi cyfrannu at yr adroddiad a byddai'n cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf cyn ei gyhoeddi ar y wefan.

Roedd y Rheolwr Partneriaethau wedi ymuno yn y cyflwyniad o'r adroddiad ac esboniodd tra bod yr adroddiad yn fyr gan fod yr holl bartneriaid wrthi'n brysur yn ymateb i'r pandemig covid-19, maent dal yn gobeithio ei fod yn cynnwys y brif wybodaeth ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod modd ffocysu ymdrechion y bwrdd nawr ar ymateb i'r heriau yma gyda'i gilydd.

#### Y prif bwyntiau i'w hamlygu yw:

- Mae'r adroddiad ond yn cynnig cipolwg o'r gwaith a wneir gan bartneriaid cyngor tref ac mae llawer mwy yn cael ei wneud o ran hyn os oes diddordeb gan aelodau i ddysgu mwy.
- Un maes o arfer da yw bod y cynghorau tref sydd yn dod o dan ddyletswyddau'r ddeddfwriaeth wedi, dros y 12 mis diwethaf, eu cynnwys fel rhan o strwythur y BGC, fel bod cynrychiolwyr nawr yn rhan o fwrdd y rhaglen ac yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau cynnar ar ddatblygu gweithgareddau i ymateb i'r heriau gyda'n gilydd.
- Mae gwaith helaeth wedi ei wneud gan y cynghorau tref dros flynyddoedd a dyma eu cyfraniad ariannol a chydabyddiaeth o'r gwaith o ddarparu gweithgareddau chwarae agored a hollol gynhwysol yn y sir. Mae'r BGC wedi buddsoddi mewn hyn dros nifer o flynyddoedd, drwy arian grant ac amser swyddogion ac mae cynghorau tref wedi cyfrannu at y gwaith hwn, gan gydnabod pa mor werthfawr yw'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored am ddim i bobl ifanc na fyddai'n medru fforddio mynychu'r ddarpariaeth chwarae dros yr haf. Rydym wedi ehangu'r model ac mae 500-600 o blant yn mynychu, gan gynnwys plant ag anableddau. Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi medru cynnig bwyd am ddim yn ystod yr haf i blant a fyddai wedi mynd heb bryd o fwyd o bosib pe na baent yn medru fforddio'r ddarpariaeth chwarae dros yr haf, ac felly, rydym hefyd yn mynd i'r afael gyda thlodi bwyd.
- Mae maes arall o ymarfer yn cael ei amlygu yn yr astudiaeth achos a ddarparwyd gan Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Mae'r gwaith hwn wedi lleihau'r modd y mae asiantaethau yn meddwl mewn seilos a bod yna mwy o gydweithio rhwng y ffrydiau gwaith gwahanol. Er enghraifft, y gwaith ar Effeithiau Profiad Niweidiol Adeg Plentynod sydd yn amlygu'r angen bod oedolyn gan bob plentyn y mae modd ymddiried ynddo ond hefyd bod angen ystyried pwysigrwydd lles meddyliol ac emosiynol pobl ifanc wrth iddynt dyfu'n hŷn. Mae hyn yn cynnwys ystyried y modelau o ofal sydd angen a sut y mae ysgolion yn medru dod yn fwy blaengar wrth edrych allan i galon y gymuned. Mae'r astudiaeth achos yn arddangos y cymhlethdodau sydd ar waith, gan gydnabod bod rôl gan yr holl

bartneriaid i'w chwarae. Drwy gydol yr astudiaeth achos, rydym wedi ceisio gweithio drwy'r systemau yn yr asiantaethau sector cyhoeddus er mwyn gwella pa mor dda y mae eu systemau yn gweithio o ran atal plant rhag disgyn i'r bylchau.

- Mae'r gwaith Dinasyddiaeth Weithgar a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys ceisio dwyn cymunedau yn agosach at waith y BGC, gan eu cofleidio yn yr heriau yr ydym yn wynebu ac yn ystod y pandemig, maent wedi amlygu eu cryfder a'u dygnwch, ac felly, rydym am eu parchu drwy eu cynnwys hwy a gweithio gyda hwy yn hytrach na'u cyfarwyddo.

#### Her:

- Gan dderbyn bod 6 blaenoriaeth allweddol y BGC wedi eu drafftio cyn y pandemig, a oes angen eu newid nawr yn sgil yr hyn sydd wedi digwydd?  
*Rwyf dal yn credu y bydd y blaenoriaethau dal yn berthnasol ond mae'r pandemig wedi amlygu'r angen i newid rhai o'r pethau yr oeddem yn gwybod bod angen eu newid. Mae Covid wedi cael effaith negatif ar nifer o bobl, ac i'r sawl a oedd angen mynediad at gymorth cyn covid, mae eu hangen yn fwy nawr. Mae'r heriau a nodwyd cynt dal yn bodoli ond bydd mwy o heriau er mwyn ceisio mynd i'r afael gyda thlodi, unigrwydd ac iechyd meddwl.*
- Gan gydnabod ei fod yn debygol y bydd heriau newydd, a fydd ymrwymadau blaenorol i leihau allyriadau carbon drwy symud i gerbydau electrïg dal yn flaenoriaeth? A ydym wedi cyflawni hyn hyd yma?  
*Un o'r trafodaethau sydd yn digwydd o fewn cymunedau yw sut ydym yn symud o'r pandemig i'r blaenoriaethau mwy hirdymor. Felly, tra ein bod wedi ail-agor canol trefi ac wedi creu mwy o barthau i gerddwyr ac wedi derbyn ymateb positif gan ein cymunedau, mae hyn hefyd yn gyson gyda'r blaenoriaethau hirdymor i sicrhau dyfodol carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r arian wedi ei sicrhau ac mae 11 o'r 15 manau gwefru electrïg nawr yn eu lle ond mae yna fuddion ychwanegol fel Ynni Gwent yn defnyddio rhai o'u hadnoddau er mwyn gosod diffibriliwr drws nesaf i'w manau gwefru, ac felly, mae'r gwaith 'dyfodol cynaliadwy' yn parhau'n flaenoriaeth.*
- Mae'r adroddiad ychydig yn ddatgymalog. Yn cydnabod bod pobl wahanol wedi cyfrannu i'r adroddiad a'r ffaith fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd ysgrifennu adroddiad, mae angen ei olygu fel ei fod yn llifo.  
*Mae'n ymdrech ar y cyd ac mae yna nifer o gyfranwyr, ac felly, nid oedd un awdur. Fel arfer ac yn y dyfodol, bydd bwrdd golygyddol yn casglu'r adroddiad a'n paratoi'r drafft terfynol ond mae'r amgylchiadau wedi bod yn anodd eleni ac nid ydym wedi cael digon o amser.*
- Rwy'n aneglur ynglŷn â pha gamau y mae'r bwrdd rhanbarthol wedi eu cymryd ac sydd wedi cael effaith ddiriaethol. Rwyf yn ansicr ynglŷn ag a ydym ond yn cofnodi pethau yr oeddem eisoes yn gwneud. Os felly, beth yw gwerth y bwrdd? Pa wahaniaethau allweddol sydd wedi eu gwneud gan y bwrdd? Er enghraifft, sut y byddem yn mesur gwaith y bwrdd o ran lleihau allyriadau carbon o'i gymharu gyda'r camau yr oedd pobl wedi cymryd yn sgil y newidiadau amgylcheddol a achoswyd gan y cyfnod clo?

*Mae'r pwynt yr ydych yn ei wneud yn dda. Byddwn yn medru mesur cyfraniad Sir Fynwy ar leihau allyriadau carbon drwy gymharu data Sir Fynwy gyda thueddiadau'r DU, ond rwy'n cydnabod ei fod yn anodd cadarnhau'r effaith. Mae'r math o faterion y mae'r bwrdd wedi eu blaenoriaethu yn rhai cymdeithasol cymhleth ac mae angen dulliau aml-asiantaeth er mwyn eu datrys ond rwyf yn cydnabod eich pwynt. Mae'r coronafeirws o bosib yn golygu bod angen newid y blaenoriaethau.*

- Mae angen diweddarau rhannau o'r adroddiad. Er enghraifft, safle'r Rhwydwaith Fusnes a GovTech, gan fod bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers ei weithredu ac nid oes sicrwydd ei fod yn cyflawni unrhyw beth gan nad oes yna ddangosyddion allweddol. A oes yna oedi wedi bod?  
*Ariannwyd y gwaith ar GovTech gan Swyddfa Cabinet y DU a gwnaed penderfyniad ym mis Mawrth i oedi'r gwaith yn sgil y pandemig, ac felly tra bod hyn wedi digwydd, mae ychydig o'r ymchwil o ran trafndiaeth ac unigrwydd wedi parhau, ond mae'n bwynt teg a dylid cyfeirio ato yn yr adroddiad.*
- Mae'r data 'Llefydd Llewyrchus' ar gyfer 2020, ond nid oes cymariaethau gyda 2018 neu 2019. Hefyd, mae penawdau'r data wedi newid, er enghraifft, mesur data 'cydraddoldeb llesiant' yn 2018/19 ond mae hyn wedi newid yn 2020 i 'cydraddoldeb cyflogaeth', ac felly, rwy'n ansicr ynglŷn ag ystyr y rhain ac yn methu gwneud cymariaethau. Rwy'n gwerthfawrogi bod y gwaith yma dal yn parhau ond nid wyf yn medru gweld unrhyw gysondeb.  
*Mae'r data 'Llefydd Llewyrchus' yn deillio o ddarn o waith a wnaed gan 5 awdurdod lleol Gwent ar 'Lefydd Hapus' rhwng 2018 a 2019/20. Mae pob un o'r sgorau pennawd yn seiliedig ar ddangosydd Awdurdod Lleol, ac felly, mae'n bwysig o ran deall y sgorau yma yr hyn yw'r dangosydd a bod yna gydnabyddiaeth fod y materion yma yn gymhleth ac mae angen mwy o dystiolaeth a data er mwyn deall y darlun yn llawn. Mae angen i ni ddeall sut y bydd covid yn effeithio ar lesiant, ac felly, mae'r adroddiad ond yn dechrau ymdrin gyda hyn a bydd hyn yn rhywbeth y bydd y BGC yn parhau i fesur. O ran mesur yr effaith economaidd, mae angen ail-fodelu rhai o'r rhain a bydd angen diweddarau hyn.*
- Rhaid i aelodau gael eu hysbysu o'r hyn sydd i ddigwydd i GovTech, gan nad oedd llawer yn gwybod fod y gwaith wedi ei oedi a byddent yn disgwyl diweddariadau pellach.  
*Mae'r pwynt hwn wedi ei dderbyn a byddwn yn diweddarau aelodau o hyn ymlaen.*
- O ran mesur cynnydd, os nad oes yna ddata ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac eleni, a fydd y data o werth pan fydd y data ar gael flwyddyn nesaf?  
*Ni fyddwn yn parhau gyda pheth o'n ffyrdd confensiynol o fesur perfformiad. Bydd rhaid i ni edrych ar hyn mewn ffordd newydd, sydd yn cyflwyno nifer o heriau ond cyfleoedd hefyd. Er enghraifft, bydd yn anodd mesur digwyddiadau chwaraeon, ond mae'r gwaith Dinasyddiaeth Weithgar wedi dangos y nifer o bobl sydd wedi gwirfoddoli a'n cyfrannu i helpu eraill yn ystod y pandemig, ac felly, mae'r twf yn y nifer o bobl sydd yn dymuno gwneud gwahaniaeth yn rhywbeth yr ydym yn medru ei gasglu. Ni fyddem wedi cofnodi'r data yn y gorffennol ond rydych yn gywir, mae angen i ni gael sgwrs ynglŷn â sut i symud ymlaen gan pan nad ydym yn medru mesur yn yr un ffordd. Bydd angen i ystyried a meddwl yn wahanol.*

### Casgliad y Cadeirydd:

Rydym wedi trafod materion ynglŷn â'r ffodd y mae'r adroddiad yn llifo a sut y mae sawl awdur gwahanol yn golygu bod yr adroddiad yn ddatgymalog a'r elfennau sydd angen eu diweddar. Rydym wedi amlygu materion o ran diweddar aelodau ar faterion fel GovTech. Rydym wedi codi pryderon am fesur perfformiad yn dilyn y cyfnod covid ac rydym yn cydnabod bod angen newid rhai o'r mesurau. Mae aelodau o'r pwyllgor yn pryderi am y rhai hynny sydd wedi bod ar ymyl y dibyn ond wedi llwyddo hyd yma ond nawr wedi eu gwthio dros y dibyn yn sgil covid. Nid oes modd gorbwysleisio'r pwysau ar deuluoedd mewn tlodi, ar aelwydydd ag incwm llai, sydd wedi gorfod ymdopi gyda'r baich o ddysgu plant gartref, ac ar ochr arall y sbectwm, y rhai hynny sydd yn byw ar ben eu hunain ac wedi dioddef unigrwydd ac arwahanrwydd, sydd wedi eu gwaethygu gan y pandemig. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir ac nid yw drafftio'r adroddiad hwn wedi bod yn hawdd a diolch i chi am eich ymdrechion ac rydym yn gofyn i chi nodi ein hadborth.

## **6. Craffu ar Adroddiad Perfformiad ar Risgiau a Strwythur Ymateb Argyfwng Gwasanaethau Cyhoeddus COVID-19 (Atodiad 4 yr adroddiad i ddilyn)**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn manylu'r risgiau a oedd yn ymwneud gyda'r pandemig coronafeirws yn y sir, gan amlinellu'r rhai sydd angen ymateb gan wasanaethau cyhoeddus ynghyd ag ymateb gan y Cyngor a throsolwg o'r strwythur aml-asiantaeth rhanbarthol ar gyfer ymateb i argyfyngau ac adferiad. Gofynnwyd i Aelodau ystyried a ydynt yn credu bod y risgiau allweddol wedi eu nodi, bod lefel y risgiau yn gymesur a phu'n ai bod y mesurau lliniaru priodol yn eu lle, gan wneud unrhyw argymhellion perthnasol i'r Cabinet neu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Dyma osod y cyd-destun ynglŷn â pham fod y pwyllgor yn derbyn yr ymateb aml-asiantaeth hwn heddiw. Bydd aelodau yn cofio ein bod wedi newid cylch gorchwyl y pwyllgor hwn y llynedd er mwyn caniatáu'r pwyllgor hwn i ystyried yr ymatebion aml-asiantaeth ehangach i'r hyn y mae ein trigolion yn wynebu. Rôl y pwyllgor yw craffu'r strwythurau yma gan eu bod wedi eu creu yn unol gyda'r ddeddfwriaeth argyfwng sifil cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y pwyllgor yn deall y strwythurau yma. O ran yr asesiad risg, rydym yn teimlo y dylid eich cynnwys yn y broses o ystyried hyn cyn bod y Cabinet yn ei ystyried, a hynny yn sgil yr ystod o bartneriaid sydd yn rhan o hyn.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r trefniadau ymateb brys sydd yn eu lle ac mae Atodiad 1 yn darparu diagram o'r strwythurau adrodd. Cyn mis Mai, esboniwyd fod yna Dîm Ymateb Brys yn ei le. Fodd bynnag, mae'r rhain fel arfer yn delio gydag argyfyngau byrdymor, ac felly, penderfynwyd atal y grŵp hwn a chreu Grŵp Cydlynu Covid 19 sydd yn cynnwys y Prif Swyddog ar gyfer Adnoddau, Prif Swyddog Cynllunio Brys a'r Pennaeth Adnoddau sydd yn atebol i'r Uwch Dîm Rheoli a'n bwydo i mewn i'r Grŵp Cydlynu Strategol Gwent. Mae yna atodiadau pellach ar y risgiau a'r ddau gynllun sydd wedi eu rhannu ar draws y mudiad gan y Prif Weithredwr, a'r llythyr gan y gweinidog Julie James sydd wedi gofyn i'r BGC i ail-ystyried ei amcanion yn sgil y pandemig covid. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y BGC yn ei gyfarfod ond rydym am roi gwybod i chi nawr er mwyn gofyn a ydych yn teimlo fod hyn yn gywir ac a oes unrhyw adborth gennyhych yr ydym am i ni ei rannu gyda'r BGC.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at Atodiad 4 lle'r amlygwyd risg 3 o ran y risg i les economaidd y sir, risg 6 o ran y niwed i blant ac oedolion bregus, risg 8 o ran methu diwallu anghenion dysgwyr gan gynnwys dysgwyr bregus. Tynnwyd sylw'r Aelodau hefyd at y pedair risg benodol, sef 15-18, fel y rhai sydd yn ymwneud yn benodol gyda'r pandemig, risg 17 sy'n cael effaith economaidd sydd yn arwain at golli swyddi a'r risg sydd yn cyfeirio at y feirws yn cynyddu tlodi mewn cymunedau.

## Heriau:

- O ran risg 8 a dysgu, rhywbeth sydd wedi ei godi yn sgil trafodaethau yr wyf wedi eu cael gydag etholwyr a theulu a ffrindiau yw'r anghydraddoldeb o ran y gefnogaeth sydd yn cael ei darparu i ysgolion Sir Fynwy i blant. Pe bawn yn profi ail don o'r feirws, a fyddai modd i ni sicrhau bod yr un lefel o gefnogaeth ar gael i bawb? Mater arall a godwyd gyda mi yn ystod trafodaeth gyda'r Welsh Amateur Boxing Association ar gemau stryd oedd na roddwyd unrhyw negeseuon i'r sawl rhwng 16 a 25 mlwydd oed. Teimlwyd fod negeseuon wedi eu hanelu at oedolion neu rieni'r plant hynny sydd mewn ysgolion cynradd.

*O ran y gefnogaeth i ysgolion, mae hyn wedi bod yn her sylweddol i'r adran addysg ac ysgolion ac mae'r don gyntaf wedi golygu ein bod wedi dysgu nifer o wersi. Pe bawn yn profi ail don, bydd yr holl wersi sydd wedi eu dysgu a'r profiad yn golygu ein bod mewn lle gwell. Mae'r ail gwestiwn a godwyd gennych yn bwysig iawn ac rwyf yn gyfarwydd â'r sylwadau yma. Mae'r grŵp oedran yma yn weithgar iawn yn gymdeithasol ac mae'r modd yr ydym yn cyfathrebu gyda hwy yn bwysig iawn a rhywbeth sydd angen i ni ystyried.*

- Mae'n bwysig sicrhau ein bod yn cyfathrebu gyda'r grwpiau o bobl ifanc oherwydd mae'r data sydd yn dod i'r amlwg yn awgrymu bod y bobl ifanc yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan i'r feirws ond yn gyfrifol am y twf yn y nifer o achosion. Mae data o'r UDA yn dangos yr effeithiau hirdymor.

*Rydych yn gywir. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i edrych ar yr hyn sydd yn digwydd ar draws y byd ac yn ystyried y dystiolaeth.*

- Nid wyf yn teimlo bod risg 8 yn adlewyrchu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa, sydd yn anghyson yn fy marn i. Mae dysgu ar-lein yn mynd i fod yn hanfodol iawn os ydym yn profi ail don ac nid wyf yn teimlo fod y risg yma wedi ei gofnodi'n ddigonol. Rwyf wedi gofyn y cwestiwn i'r aelod cabinet ynglŷn ag a ydym yn gwybod pa ysgolion sydd yn gwneud yn dda a pha rai na sydd yn gwneud 'gystal ond nid wyf wedi derbyn ateb boddhaol. Rhaid i ni sicrhau bod unrhyw arferion da yn cael eu rhannu.

- Rwyf yn teimlo hefyd fod risg 1, sydd yn 'isel' ac yn cyfeirio nad oes yna ddull cyflenwi cynaliadwy, yn wrthgyferbyniol gyda risg 15 sydd yn ymwneud gyda chyflenwi gwasanaethau a mesurau lliniaru sydd yn 'uchel' a'n 'ganolig'. Nid yw hyn yn gyson ac mae angen ail-asesu rhif 1 yn fy marn neu'i integreiddio i mewn i risg 15.

*Mae'r rhesymeg dros asesu'r sgoriau fel y maent, yn enwedig o ran risg 1, yn ymwneud â'r ffaith ein bod yn credu bod y risg nad yw'r awdurdod yn medru parhau fel ag y mae yn isel, ond o ran risg 15, rydym yn gwybod bod rhai gwasanaethau o dan straen sylweddol a bu'n rhaid i ni atal rhai gwasanaethau fel casglu sbwriel o aelwydydd a chanolfannau ailgylchu a chyflwyno systemau cadw lle. Felly, dyma'r rhesymeg y tu nôl i'r sgoriau yma. Mae hon yn ddogfen fyw sydd yn adlewyrchu'r awyrgylch deinamig o'n cwmpas. Os yw'r pwyllgor yn credu fod lefel y risg a glustnodir i risg 1 yn rhy isel, yn ogystal â risg 15, mae modd argymhell eu bod yn cael eu hail-asesu a gallwn roi gwybod i'r Cabinet.*

- *Mae lefel y risg cyn cymryd y mesurau lliniaru ar gyfer risg 1 yn iawn ond rwy'n argymhell cynyddu'r lefel 2020 a 2021 ar ôl y mesurau lliniaru o isel i ganolog, gan fy mod yn teimlo bod gormod o ansicrwydd.*
- A fyddai'n bosib swyddogion i rannu manylion ynglŷn â sut oeddynt wedi penderfynu ar y lefelau yma o risg?  
*Mae fersiwn lawn yr asesiad risg yn cynnwys mwy o fanylion ac yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ond rwy'n derbyn y pwynt ei fod yn anodd i aelodau i ddeall hyn heb wybod sut ydym wedi penderfynu ar y lefel o risg. Mae'r Swyddogion yn hapus i dderbyn unrhyw argymhellion eraill o ran lefel y risg a'i rannu gyda'r cabinet, ynghyd â nodi a yw'r pwyllgor yn teimlo fod y risgiau wedi eu cofnodi'n ddigonol.*

#### Casgliad y Cadeirydd:

Mae yna faterion wedi eu crybwyll sydd yn ymwneud gyda chysondeb o ran dysgu ar-lein ac mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei godi gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a oedd wedi cwestiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg sydd wedi bod yn paratoi ysgolion ar gyfer dulliau dysgu cyfun o fis Medi ymlaen. Roedd aelodau hefyd wedi mynegi pryderon am y plant a fydd yn sefyll arholiadau'r flwyddyn nesaf ond sydd â rhieni na sydd yn medru yn defnyddio technoleg neu'n gorfod gweithio oriau hir, ac felly'n methu cynnig yr un lefel o gefnogaeth i addysg eu plant. Rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor fod pob plentyn yn derbyn I pad. Yn olaf, mae'r pwyllgor hwn wedi cyrraedd consensws y dylai lefel y risg ar gyfer risg 1 ar ôl y mesurau lliniaru, gael ei godi o isel i ganolog, fel y trafodwyd.

### **7. Trafodaethau ar syniadau cynnar ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol.**

Daethpwyd â'r adroddiad hwn i'r pwyllgor er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y trafodaethau sydd wedi eu cynnal ynglŷn â'r manteision o symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwent gyfan. Roedd y Pwyllgor Dethol Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cefnogi'r syniad o BGC rhanbarthol mewn cyfarfodydd blaenorol er mwyn lleihau dyblygu ymdrechion, gwella llywodraethiant a'n sicrhau dull cyson at ddarparu gwasanaethau o dan ymbarél rhanbarthol.

Clywodd Aelodau y byddai yna fanteision clir o ran arbedion maint ar gyfer partneriaid a fyddai ond yn gorfod mynychu 1 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â manteision o ran cyflawni prosiectau a rennir fel Gwent Green Grid a phrosiectau eraill fel y rhai sydd yn ymwneud gyda gordewdra. Byddai yna fanteision hefyd o ran y blaenoriaethau rhanbarthol a rennir fel trais a chamdriniaeth yn y cartref. Fodd bynnag, bydd angen gweld canlyniadau diriaethol ar lefel leol. Un peth allweddol i'w ystyried fyddai cadw mewn cof yr hyn sydd yn bwysig i Sir Fynwy a sut i hyrwyddo'r agenda leol. Byddai angen i ni ystyried hefyd sut y bydd swyddogion yn cael eu defnyddio mewn strwythur rhanbarthol ac o ran bwrdd y rhaglen. Nid oes llawer o fanylder ar y cynnig hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad wedi ei gyflwyno i aelodau er mwyn sicrhau bod aelodau yn deall y trafodaethau diweddaraf sydd yn cael eu cynnal ar drefniadau cydweithio a'n rhoi'r cyfle iddynt i gynnig unrhyw adborth os yw'r pwyllgor am wneud hyn.

#### Casgliad y Cadeirydd:

Roedd yna gefnogaeth gan y pwyllgor tuag at symud tuag at BGC rhanbarthol am y rhesymau sydd yn cael eu hesbonio yng nghyflwyniad yr adroddiad. Roedd Aelodau wedi gwneud cais am restr o'r prosiectau cydweithredol sydd yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan dderbyn fod yna nifer o wasanaethau eraill sydd yn cael eu darparu ar y cyd a'n cydnabod bod y rhain yn debygol o gael eu goruchwylio gan pwyllgorau dethol eraill.

The meeting ended at **1.00 pm**